Solicitors Regulation Authority | SQE

# Cwestiwn enghreifftiol SQE2 a thrafodaeth ar yr ateb

Dadansoddi'r achos a'r mater (Sefydliadau, rheolau a gweithdrefnau busnes)

*Adolygwyd ddiwethaf ar 28 Tachwedd 2023*

Bydd ymgeiswyr yn sefyll 16 o asesiadau yn SQE2. Er mwyn pasio SQE2, rhaid i ymgeiswyr gael y marc pasio cyffredinol ar gyfer SQE2.

Mae'r cwestiwn enghreifftiol hwn, a thrafodaeth ar yr ateb, yn enghraifft o asesiad dadansoddi'r achos a'r mater. Asesiad ar gyfrifiadur yw hwn a bydd gan ymgeiswyr 60 munud i gyflawni'r dasg.

Am ragor o fanylion gweler Manyleb Asesu SQE2.

**Noder bod y cwestiynau enghreifftiol wedi cael eu darparu er mwyn rhoi syniad o'r math o dasgau y gellid eu gosod i ymgeiswyr. Nid ydynt yn adlewyrchu'r holl ddeunydd sydd wedi'i gynnwys yn SQE2. Efallai na fydd cwestiynau yn y dyfodol yn dilyn yr un fformat yn union.**

# Cwestiwn a phapurau ychwanegol i ymgeiswyr

**Nodyn i Ymgeiswyr:**

**Fe welwch fod rhai termau Cymraeg yn yr asesiad hwn yn cael eu dilyn gan y term Saesneg cyfatebol mewn cromfachau. Yn ogystal, mae rhestr eirfa, sydd wedi'i hatodi, wedi'i ffurfio o'r termau hynny.**

**E-bost at yr Ymgeisydd**

**Oddi wrth:** Partner
**Anfonwyd:** 11 Rhagfyr 202#
**At:** Yr Ymgeisydd
**Pwnc:** Nick Dutton ac Alex Hayman

Ddoe bues i'n siarad â chleientiaid newydd, Nick Dutton ac Alex Hayman. Maen nhw yn gyffrous ynglŷn â chynnyrch newydd maen nhw wedi bod yn ei ddatblygu. Eglurwyd mai dyfais yw hon a fydd yn galluogi ceir trydan i deithio ymhellach nag ar hyn o bryd cyn y bydd angen ail-wefru. Maen nhw'n bwriadu sefydlu cwmni newydd i ddatblygu a chynhyrchu'r ddyfais hon. Maen nhw wedi bod yn gweithio yn y diwydiant ceir ers peth amser, ac maen nhw eisoes wedi profi rhywfaint o lwyddiant wrth ddatblygu darnau i geir. Byddant yn cydweithio â'i gilydd yn y busnes newydd hwn a bydd ein cwmni ni'n gweithredu ar ran y ddau ohonynt.

Y Cyfarfod Cyntaf a'r Cynnig (proposal)

Mae gan Nick ac Alex rywfaint o'u harian eu hunain i'w fuddsoddi yn y busnes. Mae Frank Wells, sy'n ddyn busnes profiadol, yn barod i fuddsoddi yn eu prosiect. Mae chwaer Frank, Mary Freeman, hefyd wedi cytuno i gyfrannu rhywfaint o'r cyfalaf.

Mae Nick ac Alex yn amcangyfrif y bydd angen £65,000 arnynt fel cyfalaf cychwynnol (start-up capital). Mae gan Nick ac Alex £15,000 rhyngddynt i'w fuddsoddi: byddant yn cyfrannu £7,500 yr un.

Mae cyfarfod cychwynnol wedi'i gynnal ac mae Frank a Mary wedi cytuno i gyfrannu'r £50,000 arall: bydd Frank yn buddsoddi £32,500 a bydd Mary yn buddsoddi £17,500. Cytunwyd hefyd mai enw'r cwmni fydd ElectroEndurance ac mai Nick Dutton fydd Ysgrifennydd y Cwmni.

Ar ôl y cyfarfod anfonodd Frank a Mary lythyr at Nick ac Alex yn crynhoi eu cynnig **(Atodiad 1)** ac amlinelliad o'u cynnig **(Atodiad 2)**.

Gwybodaeth Gefndirol Bwysig

Fel y gweli di o'r llythyr atodedig, mae Frank a Mary wedi ei gwneud hi'n glir, gan eu bod nhw'n cymryd risg sylweddol, eu bod nhw'n disgwyl enillon (return) cynnar ar eu buddsoddiad yn y cwmni. Fodd bynnag, mae Frank a Mary ill dau yn hapus i drafod a negodi eu cynnig cychwynnol.

Mae Nick ac Alex yn sylweddoli na allant fwrw ymlaen i ddatblygu a chynhyrchu eu dyfais newydd heb fuddsoddiad gan Frank a Mary. Fodd bynnag, os yw Nick ac Alex mor llwyddiannus ag y maen nhw'n gobeithio, byddent yn hoffi symud y busnes yn ei flaen ar

eu pen eu hunain. Felly maen nhw am wybod pa mor sicr fydd eu sefyllfa fel cyfarwyddwyr y cwmni. Maen nhw wedi dweud hefyd y byddai'n well ganddynt weld cyn lleied o ymyrraeth allanol â phosibl yn y cwmni. Cyn belled ag y bo'n bosibl, maen nhw am weld yr elw'n cael ei ddefnyddio i ddatblygu'r cynnyrch ac i recriwtio gweithwyr arbenigol, ac maen nhw am fod â rheolaeth dros benderfyniadau ar sut i ddefnyddio'r elw.

Mae Nick a Alex wedi dweud eu bod yn disgwyl cytuno â'i gilydd ar benderfyniadau a wneir o fewn y cwmni. Maen nhw'n disgwyl y bydd Frank a Mary hefyd yn cytuno â'i gilydd. Fodd bynnag, maen nhw'n cydnabod na fydd y pedwar ohonynt o reidrwydd yn cytuno â'i gilydd bob tro.

<u>Y Cyngor a'r Dadansoddiad sydd eu hangen</u>

Hoffai Nick ac Alex gael cyngor ar y cynnig hwn ac awgrymiadau ar gyfer negodi am well sefyllfa iddyn nhw eu hunain, **gan ystyried yr hyn a fydd yn dderbyniol i Frank a Mary**.

Hoffwn i ti roi'r cyngor hwn a'r dadansoddiad hwn i mi fel y gallaf eu defnyddio fel sail llythyr at y cleientiaid. Wrth roi dy gyngor mae angen cofio nad oes gan Nick ac Alex unrhyw brofiad o ffurfio cwmni, na rhedeg busnes drwy gwmni. Dealltwriaeth sylfaenol iawn yn unig sydd ganddynt o'r hyn mae'n ei olygu i fod yn gyfranddalwyr a chyfarwyddwyr mewn cwmni cyfyngedig preifat.

Fodd bynnag, **hoffent gael esboniadau cryno o'r gyfraith berthnasol** lle y bo'n briodol, felly dylet gynnwys y rhain yn dy gyngor a dy ddadansoddiad. **<u>PAID</u>** â chynnwys cyngor am gorffori cwmni, na chynllun manwl o weithdrefnau y bydd eu hangen o bosibl yn y pen draw: ar hyn o bryd, maen nhw wedi gofyn am gyngor cychwynnol yn unig. **<u>PAID</u>** â chynnwys cyngor ar drethiant ar hyn o bryd chwaith.

**Noda dy gyngor a'th ddadansoddiad o'r canlynol:**

i. **Pe bai'r cwmni'n cael ei strwythuro yn y ffordd a awgrymir yn y cynnig (Atodiad 2), a all Frank a Mary dynnu Nick ac Alex fel cyfarwyddwyr y cwmni? Pa newidiadau fyddet ti'n eu hargymell i Nick ac Alex geisio eu cyflwyno er mwyn cryfhau eu sefyllfa fel cyfarwyddwyr?**

ii. **Pa gynigion, sy'n wahanol i'r rhai a wnaed yn Atodiad 2, y gallai Nick ac Alex eu hystyried fel ffyrdd o strwythuro'r buddsoddiad y bydd Frank a Mary yn ei wneud? Dylet awgrymu cynigion a fydd o fudd i'n cleientiaid, gan gofio'r hyn yr wyt yn credu fydd yn dderbyniol i Frank a Mary. Yn achos unrhyw awgrymiadau y byddi di'n eu gwneud, dylet nodi'r manteision a'r anfanteision o safbwynt Nick ac Alex, ac o safbwynt Frank a Mary. Bydd hyn yn galluogi Nick ac Alex i ddeall y sefyllfa'n well cyn dechrau negodi.**

**Nodyn i Ymgeiswyr:**

**Dylech dybio nad oes gwrthdaro buddiannau rhwng Nick ac Alex. Dylech dybio bod buddiannau Nick ac Alex yn union yr un fath yn hyn o beth, ac na fydd gwrthdaro rhyngddynt yn ddiweddarach. Yn benodol, <u>NI</u> ddylech ystyried unrhyw gyngor cyfreithiol ar wahân y gallai'r naill neu'r llall ddewis ei gymryd**

**yn ddiweddarach.**

**Rwyf wedi delio â phob mater sy'n ymwneud â gofal cleientiaid, felly ni fydd angen ystyried y rhain.**

**Rhestr eirfa ar gyfer Busnes>Dadansoddi’r Achos a’r Mater**

| **Cymraeg** | **Saesneg** |
|---|---|
| blaengyfrannau | preference shares |
| cyfalaf cychwynnol | start-up capital |
| cynnig | proposal |
| difidend blaenoriaethol cronnus sefydlog | fixed cumulative preferential dividend |
| dirwyn i ben | to wind up |
| enillon | return |
| enwol | nominal |
| Erthyglau Cymdeithasiad | Articles of Association |
| iawndal | damages |
| penderfyniad cyffredin | ordinary resolution |
| penderfyniadau | resolutions |
| pleidlais cyfrannau | poll vote |

**ATODIAD 1**

The Homestead Falconer’s
Rise
Doncaster DN12 1AD

8 Rhagfyr 202#

Annwyl Nick ac Alex

Roeddem yn meddwl yr hoffech gael cadarnhad ysgrifenedig gennym ni o'n cynnig ynglŷn â sut y gallem fod yn rhan o’’ch menter busnes newydd. Mae hyn, fel yr ydych wedi egluro, yn golygu datblygu cynnyrch newydd i alluogi ceir trydan i deithio ymhellach nag ar hyn o bryd cyn bod angen ail-wefru. Nid ydych wedi corffori'r cwmni i ddatblygu a chynhyrchu'r ddyfais eto, ond rydych wedi nodi y byddwch yn ymgynghori â chyfreithiwr. Byddwn yn awgrymu eich bod yn cael cyngor ar ein cynnig gan eich cyfreithiwr, a'n bod ni’n cwrdd eto wedi hynny.

Mae gan Frank £32,500 i'w fuddsoddi yn y cwmni. Bydd Mary yn buddsoddi £17,500. Ein hawgrym ni yw y byddwn yn defnyddio'r buddsoddiad hwn i fod yn gyfranddalwyr yn y cwmni, ond nid yw'r un ohonom yn dymuno bod yn gysylltiedig â’r gwaith o redeg y cwmni o ddydd i ddydd, ac nid ydym am gael ein penodi'n gyfarwyddwyr.

Gan ein bod yn gwneud buddsoddiad mor sylweddol, bydd rhaid i ni weld enillion o ryw faint cyn gynted â phosibl. Rydych wedi dweud wrthym nad ydych yn disgwyl i'r cwmni wneud unrhyw elw yn ystod y 18 mis cyntaf o weithredu. Ein hawgrym felly yw eich bod chi, yn gyfnewid am ein buddsoddiad, yn cyhoeddi rhai blaengyfrannau (preference shares) a rhai cyfrannau cyffredin i’r ddau ohonom. Ymddengys i ni fod hyn yn ffordd dda i chi gael y cyfalaf sydd ei angen arnoch er mwyn dechrau arni, tra hefyd yn ein caniatáu i ni gael cyfran o'r elw yn gynnar yn oes y cwmni. Yn y Cynnig Strwythur a Buddsoddi yn y Cwmni sydd wedi'i atodi, rydym wedi cynnwys geiriad yr awgrymwn y gellid ei gynnwys yn erthyglau'r cwmni i nodi'r hawliau sydd ynghlwm wrth y blaengyfrannau.

Pan fyddwch wedi cael cyngor cyfreithiol, efallai y byddwch yn teimlo yr hoffech drafod elfennau o’n cynnig, neu pwyntiau sy'n deillio ohono, â ni.

Mae pob croeso i chi gysylltu â ni maes o law a byddwn yn hapus i ystyried unrhyw gynigion rhesymol eraill.

Gyda phob dymuniad da
Frank a Mary

**ATODIAD 2**

**Cynnig Strwythur a Buddsoddi yn y Cwmni dyddiedig 8 Rhagfyr 202#**

| | |
|---|---|
| Enw Arfaethedig | ElectroEndurance Limited |
| Cyfarwyddwyr Arfaethedig | Nick Dutton<br>Alex Hayman |
| Ysgrifennydd y Cwmni | Nick Dutton |
| Swyddfa Gofrestredig | 75 Hopswood Drive, Doncaster, DN11 7BQ<br><br>Rhif ffôn: 01302 598211 |
| Cyfranddalwyr | Frank Wells:<br>10,000 o flaengyfrannau cronnus 20% £1 yr un; a 22,500 o gyfrannau cyffredin £1 yr un<br><br>Mary Freeman:<br>5,000 o flaengyfrannau cronnus 20% £1 yr un; a 12,500 o gyfrannau cyffredin £1 yr un<br><br>Nick Dutton:<br>7,500 o gyfrannau cyffredin £1 yr un<br><br>Alex Hayman:<br>7,500 o gyfrannau cyffredin £1 yr un |
| Erthyglau Cymdeithasiad (Articles of Association) | Atodlen 1 o Reoliadau Cwmnïau (Erthyglau Enghreifftiol) 2008 gydag un diwygiad sy’n cynnwys erthygl ychwanegol sy’n nodi'r hawliau sy'n gysylltiedig â'r blaengyfrannau: Bydd gan ddeiliaid blaengyfrannau hawl i gael difidend blaenoriaethol cronnus sefydlog (fixed cumulative preferential dividend) ar gyfradd o 20% y flwyddyn ar y swm a dalwyd arno. Os bydd y cwmni'n dirwyn i ben (wind up) dan unrhyw amgylchiadau, bydd unrhyw gyfalaf dros ben sydd ar gael i'w ddosbarthu i'r cyfranddalwyr yn cael ei ddosbarthu'n gyfartal rhwng yr holl gyfranddalwyr, yn gymesur â gwerth enwol (nominal) cyfanswm eu cyfrandaliadau ar gyfer pob dosbarth o gyfrannau a ddelir. Bydd gan ddeiliaid y blaengyfrannau'r hawl i gael eu hysbysu o unrhyw benderfyniadau (resolutions) a roddir gerbron aelodau'r cwmni ond ni fydd ganddynt hawl i bleidleisio ar unrhyw benderfyniadau o'r fath ac ni fyddant yn cyfrif yn y cworwm mewn unrhyw gyfarfod cyffredinol. |
| Cytundeb y Cyfranddalwyr | Dim |
| Contractau Gwasanaeth y Cyfarwyddwyr | Nick Dutton ac Alex Hayman – telerau, gan gynnwys cyflogau, i’w cytuno. |

# Trafodaeth ar yr ateb

## Dadansoddi’r Achos a’r Mater

**PWYNTIAU CYFREITHIOL ALLWEDDOL**

Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

Sylwer nad oes angen cyfeiriadau (e.e. darpariaethau Deddf Cwmnïau 2006 na Rheoliadau Cwmnïau (Erthyglau Enghreifftiol) 2008).

***Tynnu cyfarwyddwr/wyr***

- Mae gan gyfranddalwyr y pŵer i dynnu cyfarwyddwr cwmni drwy benderfyniad cyffredin (ordinary resolution).
- Sut mae cyfranddalwyr yn pasio cynnig cyffredin i dynnu cyfarwyddwr, fel y mae’n gymwys i'r senario hwn ac yn enwedig y cydbwysedd grym yn strwythur arfaethedig y cwmni.

Sylwer nad oes angen cynllun gweithdrefnau manwl.

***Cryfhau sefyllfa’r cyfarwyddwyr***

Gallai awgrymiadau gynnwys:

- Contract gwasanaeth cyfnod sefydlog hir
- Hawliau pleidleisio wedi’u pwysoli ar gynnig i dynnu cyfarwyddwr
- Cytundeb cyfranddalwyr ar yr amod na fydd Frank a Mary yn tynnu Nick ac Alex fel cyfarwyddwyr, nac yn penodi rhagor o gyfarwyddwyr

***Cynigion amgen ar gyfer strwythuro’r buddsoddiad***

Gall awgrymiadau gynnwys:

- Benthyca rhan/y cyfan o’r arian buddsoddi
- Addasu cydbwysedd y cyfrannau
- Addasu’r hawliau sydd ynghlwm wrth y cyfrannau

Ystyried manteision/anfanteision unrhyw awgrymiadau eraill, gan ystyried buddiannau'r partïon:

- Maint y buddsoddiad sy’n cael ei gynnig
- Pa mor fuan y disgwylir enillion
- Pwysigrwydd incwm/enillion ar y cyfalaf
- Parhad y buddsoddwyr i ymwneud â'r cwmni
- Rheoli i ble mae elw’r cwmni’n mynd

**ENGHRAIFFT O ATEB**

**Mae ateb enghreifftiol wedi'i ddarparu isod. Enghraifft yw hyn o ateb ymgeisydd a fyddai'n cael ei asesu fel un sy'n amlwg yn cyflawni gofynion cymhwysedd yr asesiad. Nid ateb perffaith na model mo hwn ac mae pwyntiau pellach y gellid bod wedi'u gwneud.**

**Enghraifft o Ateb**

O dan y cynnig buddsoddi presennol, bydd Frank a Mary gyda'i gilydd yn dal 70% o gyfrannau pleidleisio'r cwmni. Er na fydd ganddynt reolaeth lwyr dros y cwmni, mae hyn yn golygu y gallant basio penderfyniadau sy'n gofyn am fwyafrif syml (penderfyniadau cyffredin), ond nid penderfyniadau arbennig lle mae angen 75%. Bydd Frank a Mary hefyd yn dal blaengyfrannau, sy'n golygu, bob blwyddyn y bydd difidend ar gael, byddant yn derbyn enillion o 20% ar y swm a fuddsoddwyd yn y cyfrannau hyn cyn i unrhyw gyfranddalwyr eraill dderbyn unrhyw elw. Os na fyddant yn derbyn difidend mewn unrhyw flwyddyn bydd yr hawl yn cronni, felly os na fyddant yn cael difidend mewn unrhyw flwyddyn benodol, bydd y swm y dylent fod wedi'i dderbyn yn cael ei drosglwyddo i'r flwyddyn nesaf.

**1. A all Frank a Mary dynnu Nick ac Alex fel cyfarwyddwyr?**

Fel y nodwyd uchod, o dan y cynnig buddsoddi presennol, byddai Frank a Mary gyda'i gilydd yn dal 70% o'r pleidleisiau. Gall cyfranddalwyr dynnu cyfarwyddwyr drwy basio cynnig cyffredin, lle mae angen mwy na 50% o'r pleidleisiau. Byddai cyfarfod cyffredinol a drefnwyd i basio cynnig o'r fath gyda Frank a Mary yn bresennol yn gyfystyr â chworwm. Mae pleidleisiau mewn cyfarfod cyffredinol yn cael eu cynnal drwy godi dwylo (1 bleidlais y pen), fel y byddai'r pleidleisiau'n gyfartal pe bai'r pedwar cyfranddaliwr yn bresennol yn y cyfarfod. Fodd bynnag, gan fod Frank a Mary yn berchen ar o leiaf 10% yr un o gyfranau cyffredin y cwmni, gall y naill neu'r llall fynnu cynnal pleidlais cyfrannau (poll vote) ar unrhyw adeg, sy'n golygu y bydd pleidleisio'n digwydd ar sail 1 bleidlais ar gyfer pob cyfran. Mae eu cyfrannau ar y cyd yn cyfrif am 70% sy'n golygu y byddai Frank a Mary yn gallu tynnu Nick ac Alex fel cyfarwyddwyr, ac y gallent hefyd benodi cyfarwyddwyr newydd i'r bwrdd.

Mae gwahanol ffyrdd o gryfhau sefyllfa Nick ac Alex fel cyfarwyddwyr wedi'u nodi isod:

i) Ymrwymo i gytundeb cyfranddalwyr sy'n dweud na fydd Frank a Mary tynnu Nick ac Alex fel cyfarwyddwyr nac yn penodi cyfarwyddwyr ychwanegol.

ii) Cynnwys yr hyn a elwir yn gymal 'Bushell v Faith' yn erthyglau'r cwmni. Byddai hyn yn cryfhau hawliau pleidleisio Nick ac Alex pe bai'r cyfranddalwyr yn ceisio eu tynnu fel cyfarwyddwyr.

iii) Cyflwyno tymor penodol yng nghontractau gwasanaeth Nick ac Alex. Pe bai'r rhain yn cael eu terfynu'n gynnar byddai'n rhaid i'r cwmni dalu iawndal (damages) iddynt.

iv) Cynnwys taliad terfynu yng nghontractau gwasanaeth Nick ac Alex.

Byddai pob un o'r dulliau hyn, neu gyfuniad ohonynt, yn ei gwneud hi’n anos i Frank a Mary dynnu Nick neu Alex fel cyfarwyddwyr.

**2. Cynigion amgen ar gyfer strwythuro’r buddsoddiad**

i) Dyled ac ecwiti â blaenoriaeth

Gallai Frank a Mary fuddsoddi drwy fenthyciad yn ogystal â chymryd blaengyfrannau. Gallai telerau'r benthyciad gynnwys cyfradd llog sy'n uwch na’r hyn a gynigir gan fanc, a gallai hefyd gynnwys y dyddiadau pan fyddai cyfalaf yn cael ei ad-dalu, ac y gellid estyn hyn allan.  Y fantais i Frank a Mary yw y gallent dderbyn taliad llog o'r dechrau yn hytrach nag aros nes byddai difidend yn cael ei dalu. Serch hynny, os na fyddai Frank a Mary wedi cymryd unrhyw gyfrannau cyffredin, ni fyddent yn elwa ar y cynnydd yng ngwerth y cyfrannau hynny os byddai'r cwmni'n llwyddiannus. Hefyd, ni fyddai ganddynt ddim o'r hawliau, gan gynnwys hawliau pleidleisio, sy'n dod gyda chyfrannau cyffredin, ac felly efallai y byddent yn teimlo nad oedd ganddynt lais yn y cwmni a oedd yn adlewyrchu eu buddsoddiad.

Mantais y benthyciad o safbwynt Nick ac Alex yw y gallent ddal holl gyfrannau cyffredin y cwmni a hefyd ni fyddent yn talu'r difidend ar y blaengyfrannau tan y byddai’r cwmni'n gwneud elw. Maen nhw wedi dweud eu bod am barhau â chyn lleied o gysylltiadau allanol â phosibl, a byddai cymryd benthyciad yn golygu y gallent ad-dalu rhan o'r buddsoddiad. Un anfantais yw y gallai Frank a Mary fod eisiau rhyw fath o sicrwydd ar gyfer y benthyciad. Hefyd, byddai Nick ac Alex yn annhebygol o dderbyn taliadau difidend am gryn amser.

ii) Dyled ac ecwiti cymysg

Gellid negodi cyfuniad fel y byddai Frank a Mary yn cymryd rhai cyfrannau cyffredin a rhai blaengyfrannau, ac yn rhoi benthyciad hefyd. Efallai mai dyma fyddai’r opsiwn gorau a mwyaf hyblyg, a gallai roi mwy o reolaeth i Nick ac Alex na fyddai ganddynt o dan y cynnig presennol. Pe gallai Nick ac Alex negodi bod gan Frank a Mary lai na 25% o'r cyfrannau cyffredin rhyngddynt, yna byddai hyn yn dadwneud gallu Frank a Mary i rwystro penderfyniadau arbennig. Fodd bynnag, efallai na fydd hwn yn amcan realistig: mae'n bwysig cofio bod Frank a Mary yn ymgymryd â risg sylweddol o ran maint y buddsoddiad maen nhw’n ei gynnig i’r fenter newydd hon. Gan eu bod wedi datgan yn glir nad ydynt yn dymuno bod yn gysylltiedig â’r gwaith o redeg y cwmni o ddydd i ddydd, mae'n debygol y byddant yn mynnu cael rhywfaint o reolaeth fel cyfranddalwyr. Byddai hefyd yn rhesymol disgwyl y bydd Frank a Mary am i werth eu buddsoddiad adlewyrchu llwyddiant y cwmni ac felly efallai y byddant yn amharod i leihau eu daliad o gyfrannau cyffredin i'r graddau hyn.

**DADANSODDIAD**

***Pam ei bod hi'n glir bod yr ateb enghreifftiol wedi pasio'r asesiad?***

Ni fwriedir i'r canllawiau canlynol awgrymu mai dyma'r unig ffordd bosibl o ateb ond bydd yn eich helpu i ddeall pam y byddai'r ateb enghreifftiol yn cael ei ystyried fel un y mae'n glir ei fod wedi pasio yn unol â'r meini prawf asesu ar gyfer yr asesiad.

**Meini prawf yr asesiad**

Mae'r meini prawf asesu ar gyfer dadansoddi'r achos a'r mater fel a ganlyn:

***Sgiliau***

1. Nodi ffeithiau perthnasol.
2. Rhoi cyngor sy'n dangos ffocws ar y cleient (h.y. cyngor sy'n dangos dealltwriaeth o'r broblem o safbwynt y cleient a'r hyn y mae'r cleient eisiau ei gyflawni, nid dim ond o safbwynt cyfreithiol).
3. Defnyddio iaith glir, fanwl, gryno a derbyniol.

***Cymhwyso'r gyfraith***

4. Cymhwyso'r gyfraith yn gywir at sefyllfa'r cleient.
5. Cymhwyso'r gyfraith mewn modd cynhwysfawr at sefyllfa'r cleient, gan nodi unrhyw faterion sy'n ymwneud ag ymddygiad moesegol a phroffesiynol a defnyddio crebwyll i'w datrys yn onest ac yn ddidwyll.

Roedd hi'n glir o edrych ar y meini prawf uchod bod yr ateb enghreifftiol yn gymwys am y rhesymau canlynol:

| | |
|---|---|
| ***MEINI PRAWF SGILIAU*** | |
| **Nodi ffeithiau perthnasol** | Mae'r ymgeisydd wedi nodi'r ffeithiau allweddol sy'n berthnasol i'r dadansoddiad cyfreithiol, er enghraifft y ffaith y bydd Frank a Mary yn dal 70% o'r cyfrannau pleidleisio cyffredin o dan y cynigion, ac y byddant hefyd yn cael 20% o flaengyfrannau cronnus nad ydynt yn gyfrannau â phleidlais. |
| **Rhoi cyngor sy'n canolbwyntio ar y cleient** | Mae'r ymgeisydd wedi gwerthfawrogi bod angen buddsoddiad Frank a Mary ar y cleientiaid ond hefyd bod Frank a Mary yn gwneud buddsoddiad sylweddol ac yn dymuno gweld enillion cynnar, felly mae angen i'r cyngor fynd i'r afael â'r ddau bersbectif. |
| **Defnyddio iaith glir, fanwl, gryno a derbyniol** | Mae'r ymgeisydd wedi gosod y cyngor a'r dadansoddiad mewn ffordd glir a dealladwy i ffurfio sail ar gyfer llythyr at y cleient, gan gofio mai derbynnydd yr e-bost yw'r partner. |
| ***MEINI PRAWF CYFREITHIOL*** | |
| **Cymhwyso'r gyfraith yn gywir i sefyllfa'r cleient** | Mae'r ymgeisydd wedi nodi'r egwyddorion cyfreithiol sylfaenol perthnasol ac yn eu defnyddio'n gywir yng |

| | |
|---|---|
| | nghyd-destun ffeithiau achos y cleient. Er enghraifft, mae'r ymgeisydd wedi egluro y gall cyfarwyddwyr gael eu tynnu drwy gynnig cyffredin, sy'n gofyn am fwy na 50% o'r pleidleisiau, ac wedi cymhwyso hyn i nodi bod hyn yn golygu y gallai Frank a Mary dynnu Nick a/neu Alex fel cyfarwyddwyr (trwy bleidlais cyfrannau mewn Cyfarfod Cyffredinol). Mae'r ymgeisydd hefyd wedi rhoi awgrymiadau i gryfhau sefyllfa Nick ac Alex (e.e. contract gwasanaeth tymor hir/hawliau pleidleisio wedi'u pwysoli (Bushell v Faith)/cytundeb cyfranddalwyr) ac wedi rhoi argymhellion i ailstrwythuro'r buddsoddiad (e.e. cyfuniad o ddyled ac ecwiti/ecwiti â blaenoriaeth). |
| **Defnyddio'r gyfraith mewn modd cynhwysfawr i sefyllfa'r cleient, gan nodi unrhyw faterion sy'n ymwneud ag ymddygiad moesegol a phroffesiynol, a defnyddio crebwyll i'w datrys yn onest ac yn ddidwyll** | Mae dadansoddiad cyfreithiol yr ymgeisydd yn ddigon manwl yng nghyd-destun ffeithiau achos y cleient. Er enghraifft, mae'r ymgeisydd wedi egluro'n fanwl drwy ba weithdrefn y gallai Frank a Mary dynnu Nick a/neu Alex fel cyfarwyddwyr, mae wedi cynnig nifer o ffyrdd o gryfhau sefyllfa Nick ac Alex fel cyfarwyddwyr, ac mae wedi rhoi ystyriaeth fanwl o'r manteision a'r anfanteision y dulliau amgen arfaethedig ar gyfer strwythuro'r buddsoddiad, o safbwynt y ddau barti. |